

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Tachwedd 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Miss E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, S.H. Ratcliffe, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas, Y Parch. S. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

70. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

71. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Mrs W. M. Mullen-James (ymrwymiad CSDd), A. J. Rutherford (ymrwymiad gwaith) a Miss R. Siddall (ymrwymiad arall).

72. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19eg Hydref 2016 - Rhifau Cofnod 58-69

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYRWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Hydref 2016 - Rhifau Cofnod 26-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYRWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 2il Tachwedd 2016 - Rhifau Cofnod 30-33

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYRWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 2il Tachwedd 2016 - Min. Nos. 56-67
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

73. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL I'R MAER

Gwahoddodd y Maer Mr Graham i annerch y Cyngor a'i chyflwyno hi gyda chopi o'r Ysgrhythur, a dderbyniwyd gyda diolch.

74. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau y bu iddi hi a'r Dirprwy Faer eu mynychu dros y mis diwethaf ac yn benodol goleuo'r Goelcerth Flynyddol a'i phresenoldeb ar Sul y Coffa.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

75. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – PWYNTIAU SIARAD

Ymhellach i gofnod rhif 130 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Ebrill 2016, croesawodd y Maer Mr Jason Haycock o Gyngor Sir Ddinbych i ddweud wrth yr Aelodau am waith y fenter Pwyntiau Siarad.

Rhoddodd Mr Haycock becynnau gwybodaeth i'r Aelodau gan ddweud:

- Bod y fenter yn wreiddiol wedi ei datblygu o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cymru 2016 ac yn ceisio bod yn opsiwn amgen hygyrch i'r agwedd ffurfiol tuag at y gwasanaethau iechyd a lles.
- Bod y gwasanaeth yn gweithredu trwy gyfrwng nifer o sesiynau galw heibio ledled y Sir gan gynnwys Llyfrgell y Rhyl, lle gellid cyfeirio trigolion i nifer o wasanaethau gan Gyfeirwyr Cymunedol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd Mr Haycock:

- Bod y cynllun yn cael ei ariannu gan Age Connect a'r Groes Goch Brydeinig a'i weinyddu gan Ms Ann Weir o Gyngor Sir Ddinbych a oedd hefyd yn monitro gwaith y Cyfeirwyr Cymunedol.
- Bod y fenter yn rhan o "Un Pwynt Mynediad" gydag atgyfeiriad yn cael ei wneud pan fo angen.
- Er bod y Pwynt Siarad yn y Rhyl ar hyn o bryd wedi ei gyfyngu i drwy'r dydd ar ddydd Mawrth yn y llyfrgell, roeddynt yn bwriadu ei ehangu i fannau cyfarfod eraill megis caffis ac ati.

Diolchodd y Maer i Mr Haycock am ei gyflwyniad a'r wybodaeth ynddo.

76. CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud mai polisi presennol y Cyngor Tref oedd na ddylai Cynghorydd a oedd yn Aelod o Gyngor Sir Ddinbych ddal swydd Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Tref.

Dywedodd Clerc y Dref ymhellach, ar ôl llwyddiant y Cynghorydd A. R. James yn cael ei ethol i'r Cyngor Sir ar gyfer Ward Gorllewin y Rhyl, roedd ei benodiad fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio nawr yn mynd yn groes i'r polisi.

Roedd yr adroddiad yn nodi ymhellach yr opsiynau a oedd ar gael i'r Cyngor, naill ai i ddileu'r polisi neu ei ail-gadarnhau.

Yn deillio o'r adroddiad, atgoffodd nifer o'r Aelodau y Cyngor am y rhesymau y tu ôl i fabwysiadu'r polisi ac yn benodol y potensial i'r Aelod orfod datgan buddiant wrth ystyried cais ym Mhwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir, ac o bosib yn methu cefnogi/gwrthwynebu ceisiadau ar ran trigolion y Rhyl.

PENDERFYNWYD *ail-gadarnhau'r polisi a diolch i'r Cynghorydd A. R. James am ei waith da iawn fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.*

77. CAIS I DDEFNYDDIO SIAMBR Y CYNGOR

Dyweddodd Clerc y Dref bod cais wedi ei dderbyn (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan Gyngor Sir Ddinbych i ddefnyddio Siambr y Cyngor Tref ar gyfer cyfarfod o Fwrdd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl ar 9fed Mawrth 2017 gan nad oedd ystafelloedd cyfarfod Tŷ Russell ar gael ar y dyddiad hwnnw.

Cyfeiriodd yr Aelodau yn gyffredinol at bwysigrwydd y Bwrdd Prosiect ac yna **PENDERFYNWYD** *cymradwyo'r cais.*

78. EITEMAU GAN YR AELODAU: LLOCHESI NEWYDD Y PROMENAD

Dyweddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE y byddai'r llochesi newydd yn dod yn weithredol yn y man a gofynnodd am farn yr Aelodau o ran amserau goleuo addas ar gyfer y llochesi newydd.

PENDERFYNWYD *hysbysu'r Cyngor Sir y byddai'n well gan y Cyngor Tref pe byddai'r llochesi yn aros wedi eu goleuo trwy'r nos yn amodol ar arolwg pe derbyniwyd unrhyw gwynion.*

79. EITEMAU GAN YR AELODAU: ADLEOLI CYFLEUSTERAU CAMPFA AWYR AGORED

Dyweddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE y byddai angen adleoli'r gampfa awyr agored bresennol ar ôl ail-ddatblygu Rhodfa'r Dwyrain a gofynnodd am gefnogaeth i'w ail-leoli rhwng y ddwy loches newydd, yn amodol ar y datblygwr yn talu'r gost.

PENDERFYNWYD *anfon sylwadau at Gyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.*

80. EITEM ER GWYBODAETH: PARCIO AM DDIM

Dyweddodd Clerc y Dref y byddai'n Cyngor yn manteisio ar y cynnig o gael pum niwrnod parcio am ddim ar y Sadyrnau yn arwain at y Nadolig, yn dechrau ar 26ain Tachwedd 2016 a gofynnodd am wirfoddolwyr i osod a thynnu'r arwyddion ar y dyddiau priodol.

PENDERFYNWYD *bod y Cyngorwyr canlynol yn ymgymryd â dyletswyddau arwyddion fel y nodir:*

*Morley Road – Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard
West Kinmel Street a'r Llyfrgell – Y Cynghorydd A. R. James
Tŵr Awyr – Y Cynghorydd P. Prendergast*

81. EITEM ER GWYBODAETH: POPS Y NADOLIG

Hysbysodd Clerc y Dref yr Aelodau bod tocynnau ar gael ar gyfer Pops y Nadolig yn Eglwys Sant Tomos.

82. EITEM ER GWYBODAETH: NOSON ELUSEN Y MAER

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau hynny a oedd eisiau prynu tocynnau ar gyfer y noson i gysylltu â'r Maer cyn gynted ag y bo modd.

83. HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

84. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

85. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG

Cyflwynodd cynrychiolydd penodedig y Cyngor Tref ar y Bwrdd Partneriaeth Teledu Cylch Cyfyng ei adroddiad cyfrinachol mewn perthynas â gweithredu'r system i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- i) *Derbyn yr wybodaeth a diolch i'r cynrychiolydd am yr wybodaeth a gofyn am gael cyflwyno'r awgrym i'r Bwrdd Partneriaeth y dylid gofyn i Neptune Development am gyfraniad.*
- ii) *Rhoi gwahoddiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru fynychu cyfarfod yn y dyfodol gyda'r Cyngor Tref i drafod y lefelau annormal presennol o drosedd ddifrifol yn y dref.*

86. CYD-GYFARFOD AELODAU GRŴP ARDAL/CYNGOR TREF Y RHYL

Ymhellach i'r cyd-gyfarfod cyfrinachol rhwng y Cyngor Tref a Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2016, gofynnodd Clerc y Dref am gyfarwyddyd o ran sut y dylai symud ymlaen.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu rhywbeth tebyg i gynllun busnes i'r Cyngor Tref i ffurfioli'r cynnig a wnaed yn ddiweddar i'r Cyngor Tref ystyried cyfraniad ariannol arwyddocaol i'r gwaith datblygu mawr ar y Promenâd, gan gynnwys holl amcanestyniadau ariannol.

87. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

88. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: